




Anghydraddoldebau lechyd Rheoli Tir Gwledig Bioamrywiaeth sy'n dirywio Hinsawdd sy'n Newid

Sut I ddefnyddio'r ddogfen hon

Archwiliwch y themâu trwy ddefnyddio'r bar llywio llwyd ar ben uchaf y dudalen. I fynd yn ôl i'r hafan hon, cliciwch ar y pâl ar ben y dudalen



Themâu sy'n Dod i'r Amlwg – Datganiad Ardal De-orllewin Cymru

Mae'r [Polisi Adnoddau Naturiol](#) yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol yng Nghymru. Y rhain yw'r cylchau ar gylch allanol y diagram hwn (i'r chwith ar y gwaelod) gan Lywodraeth Cymru. Trwy ein gwaith yn ne-orllewin Cymru, rydym wedi nodi materion o bryder penodol yn yr ardal ac (yn fras!) wedi newid maint y cylchau i adlewyrchu'r rhain. Y tri chylch yng nghanol y diagram yw'r blaenoriaethau o'r Polisi Adnoddau Naturiol ac maent yn egluro sut y byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau. Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg, sy'n gysylltiedig â'r Polisi Adnoddau Naturiol, yn nodi'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym sy'n bwysig yn lleol yn ne-orllewin Cymru.

Beth yw'r dystiolaeth y tu ôl i'r rhain?

Mae'r themâu hyn yn adeiladu ar y trafodaethau parhaus trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, heriau a blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, a'r dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn ein Proffil Ardal. Wrth lunio'r rhain, rydym wedi defnyddio:

- Gwybodaeth leol arbenigol o gyfres o drafodaethau strwythuredig ym mhob lle.
- Gwybodaeth gan yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar ecosystemau a'u cydnerthedd, a'r risgiau a'r manteision maent yn eu darparu.
- Yr Aseidiadau a Chynlluniau Llesiant, a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Beth yw'r camau nesaf?

Rydym yn mynd i weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i ddeall beth sydd y tu ôl i'r themâu hyn a nodi'r cyfleoedd i wella – o ymyriadau polisi i weithredu ar lawr gwlad.





Anghydraddoldebau Iechyd Rheoli Tir Gwledig Bioamrywiaeth sy'n dirywio Hinsawdd sy'n Newid

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Mae anghydraddoldebau iechyd amlwg iawn ar draws yr ardal. Mae Cynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi'r thema hon yn glir.

Hoffem wella iechyd trwy ddiogelu a chynyddu adnoddau naturiol a chynefinoedd presennol. Mae'r rhain wedyn yn gallu cefnogi ymagweddau ataliol i ddarparu canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldeb. Esiamplau penodol o ymyriadau yw cyfleoedd seilwaith gwyrdd yn ardaloedd Bae Abertawe ac Aber Llŵchwr, a mynediad at fannau gwyrdd/glas mewn ardaloedd gwledig.

Pa fath o bynciau y mae'r thema hon yn eu cynnwys?


Mae pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y thema hon yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- Llygredd aer trefol (allyriadau ffordd a diwydiant)
- Mannau gwyrdd hygyrch (i bawb)
- Cyfleoedd hamdden (i wella iechyd meddwl a chorfforol)
- Sicrhau ecosystemau iach (e.e. dyfroedd ymdrochi)

Wedi mynd i'r afael â thair 'her allweddol' uchaf y Polisi Adnoddau Naturiol: Lleihau'r perygl o lifogydd; Gwellu ansawdd sŵn ac aer; Newid hinsawdd trwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau.

Wedi mynd i'r afael â chyfle'r Polisi Adnoddau Naturiol: Cefnogi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; Cefnogi canlyniadau iechyd.

Gweler yr
ystadegau





Mae rheoli tir gwledig anghynladwy

Mae rheoli tir gwledig anghynladwy yn dod i'r amlwg fel thema allweddol. Rydym yn gweld bod hyn yn effeithio ar ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac ansawdd yr aer.

Hoffem archwilio gwraidd y broblem ac edrych ar ffyrdd arloesol o wella'r sefyllfa, wrth geisio darparu manteision lluosog ar yr un pryd. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda rhanddeiliaid lluosog i'n helpu wrth fynd i'r afael â'r her hon.

Pa fath o bynciau y mae'r thema hon yn eu cynnwys?

Mae pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y thema hon yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- Llygredd amaethyddol gwasgaredig ac yn y tarddle i ddŵr ac aer – cefnogi ffermwyr
 - Rheoli tir ar ein safleoedd arbennig
 - Rheoli coedwigoedd
 - Troseddau amgylcheddol gwledig
- *Mae'n bwysig nodi nad yw pob un o'r ymarferion hyn yn 'anghynladwy' ar draws pob rhan o dde-orllewin Cymru a hoffem sicrhau y rhennir arfer da ar draws yr ardal*


Wedi mynd i'r afael â thair 'her allweddol' uchaf y Polisi

Adnoddau Naturiol: Gwella ansawdd dŵr a faint sydd ohono; Cynnal capasiti cynhyrchiol; Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Wedi mynd i'r afael â chyfle'r Polisi Adnoddau Naturiol:

Cefnogi twristiaeth a gweithgareddau hamdden; Cefnogi canlyniadau iechyd

Gweler yr
ystadegau



Digwyddiadau amaethyddol mewn dyfroedd
yng Nghymru (01/01/2010 – 28/02/2018)

Crown copyright © Ordnance survey





Anghydraddoldebau Iechyd Rheoli Tir Gwledig Bioamrywiaeth sy'n dirywio Hinsawdd sy'n Newid

Bioamrywiaeth sy'n Dirywio

Mae gan yr ardal amrywiaeth enfawr o gynefinoedd sy'n cefnogi rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol. Ond maent mewn perygl oherwydd rheolaeth anaddas a difrod.

Mae cyfleoedd yn bodoli ar gyfer cydlynid mwy trwy'r system gynllunio, cynnwys y gymuned a rheoli tir yn gynaliadwy.

Mae rhoi lle blaenllaw i fioamrywiaeth fel thema sy'n dod i'r amlwg yn sicrhau na chaiff ei cholli ymhlith blaenoriaethau sy'n cystadlu.

Pa fath o bynciau y mae'r thema hon yn eu cynnwys?

Mae pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y thema hon yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- Diogelu a chynyddu ein cynefinoedd a rhywogaethau – gan gynnwys ein hardaloedd
- Gwella cysylltedd cynefinoedd a rhywogaethau
- Cysylltu ein cymunedau â natur

Ar gyfer cyfeiriad strategol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran bioamrywiaeth, ewch i'n tudalen [natur hanfodol](#).

Wedi mynd i'r afael â thair 'her allweddol' uchaf y Polisi Adnoddau Naturiol: Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth; Gwella ansawdd dŵr a faint sydd ohono; Newid hinsawdd trwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau.

Wedi mynd i'r afael â chyfle'r Polisi Adnoddau Naturiol: Cefnogi twristiaeth a gweithgareddau hamdden; Cefnogi canlyniadau iechyd.



Datganiad Ardal De

Themâu sy'n Dod i'r Amlwg



Anghydraddoldebau lechyd Rheoli Tir Gwledig Bioamrywiaeth sy'n dirywio Hinsawdd sy'n Newid

Gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid

Mae cyfanswm allyriadau carbon yn Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot o fewn y chwech uchaf ar gyfer siroedd yng Nghymru (mae Sir Benfro yn y 9fed safle).

Mae allyriadau nwy tŷ gwydr a CO₂ ymysg y mwyaf yng Nghymru, yn enwedig yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Mae adnoddau dŵr yn fwy agored i niwed yn ne-orllewin Cymru nag yn rhannau eraill o Gymru ac mae cymunedau arfordirol yn yr ardal hon yn fwy agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Hoffem weithio gyda chymunedau a diwydiant i sicrhau eu bod nhw a'r ecosystemau o'u cwmpas yn gallu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Hoffem hefyd edrych ar sut y gallwn gefnogi mesurau i liniaru newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon. E.e. archwilio modelau economaidd gwahanol..

Mae'r Datganiad Ardal Morol wedi nodi 'addasu arfordirol' fel thema sy'n dod i'r amlwg ac yn ceisio *archwilio'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod gan Gymru arfordir sy'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac yn darparu manteision lluosog*

Pa fath o bynciau y mae'r thema hon yn eu cynnwys?

Mae pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y thema hon yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- Ein heffaith fyd-eang (ar lefel bersonol, busnes a diwydiannol)
- Rheoli a chynllunio arfordirol priodol
- Gweithredu ar sail cymunedau

Gweler yr
ystadegau



Wedi mynd i'r afael â thair 'her allweddol' uchaf y Polisi Adnoddau Naturiol: Newid hinsawdd trwy ddulliau sy'n seiliedig ar ecosystemau; Gwella ansawdd sŵn ac aer; Mwy o ynni adnewyddadwy

Wedi mynd i'r afael â chyfle'r Polisi Adnoddau Naturiol: Cefnogi canlyniadau iechyd; Cefnogi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; Cefnogi twristiaeth a gweithgareddau hamdden



Datganiad Ardal De

Themâu sy'n Dod i'r Amlwg



Anghydraddoldebau Iechyd Rheoli Tir Gwledig Bioamrywiaeth sy'n dirywio Hinsawdd sy'n Newid

Y tu ôl i'r penawdau

^[1] Marmot, M, 2010, Fair Society Healthy Lives (Full Report). London: The Marmot Review
^[2] RNAG classified as being a 'major' source with a category certainty of either 'confirmed' or 'probable'.

Thema sy'n Dod i'r Amlwg	Beth yw'r dystiolaeth y tu ôl i'r thema hon
Cefnogi canlyniadau Iechyd	<ul style="list-style-type: none"> Mae disgwyliad oes iach ar draws y rhanbarth ar gyfer dynion yn is na chyfartaledd y DU ac mae disgwyliad oes iach ar gyfer dynion a menywod yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin yn is. Nododd asesiad llesiant Castell-nedd Port Talbot mai'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng dynion sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a mwyaf difreintiedig yng Nghastell-nedd Port Talbot yw 7.4 mlynedd, gyda bwlch disgwyliad oes iach o 18.4 mlynedd. Yn affodus, i fenywod mae'r bwlch rhwng y rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi ehangu yn ôl pob golwg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r rheswm am hyn yw nad yw menywod sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Castell-nedd Port Talbot wedi gweld y gwelliannau i ddisgwyliad oes dros amser y mae dynion a menywod sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig wedi eu mwynhau. Amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y gost o anweithgarwch corfforol yn £35 miliwn y flwyddyn, tra bo Llywodraeth Cymru yn awgrymu y cyfrifir mai cost ansawdd aer gwael ledled y DU yw £20 biliwn y flwyddyn -> Gall yr amgylchedd naturiol leddfu effeithiau iechyd niweidiol amddifadedd hirdymor Mae gorchudd canopi trefol yn amrywio ar draws de-orllewin Cymru. Wrth edrych ar yr ardaloedd trefol mwy, gwelir trefi sydd â chanrannau is amlwg fel Port Talbot (7.5%) a Gorseinon, Hwlfordd, Caerfyrddin a Llanelli (tua 11%). Mae amcangyfrifon gorchudd coed yn Abertawe yn amrywio rhwng 16% a 18%. Fodd bynnag, ardal fawr yw hon ac nid yw gorchudd canopi wedi ei rannu'n deg oddi fewn (mae gorchudd coed mewn ardaloedd difreintiedig yn tueddu i fod yn is ac maent yn gymharol lai cyfoethog o ran coed amwynder).
Sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar dir gwledig	<ul style="list-style-type: none"> Yn ne-orllewin Cymru, mae 42% o'r materion sy'n ymwneud ag unedau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) wedi'u priodoli i reoli amaethyddiaeth a thir – mae'r rhain yn ymwneud â phori a phrysgwydd yn bennaf. Mae llygredd a gwastraff yn cyfrif am 26% o'r materion yn ymwneud ag unedau rheoli SoDdGA yn ne-orllewin Cymru, yn bennaf mewn perthynas â llygredd aer a llygredd dŵr (llygredd gwasgareddig a llygredd yn y tarddle). Mae 14% o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da yn ne-orllewin Cymru oherwydd llygredd o ardaloedd gwledig (22% pan ddilêir ffynonellau anhysbys). <ul style="list-style-type: none"> -> Mae 53% o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da o dan y categori hwn yn gysylltiedig â seilwaith ffermydd -> Mae 24% o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da o dan y categori hwn yn gysylltiedig â choedwigaeth Mae de-orllewin Cymru yn un o'r prif leoedd ar gyfer digwyddiadau llygredd amaethyddol mewn cyd-destun Cymreig, ac mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn yn gysylltiedig â'r diwydiant laeth ac yn digwydd yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a rhannau o Geredigion (2016/17). Mae addasiadau ffisegol yn gyfrifol am 13% o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da ac mae llygredd o garthion a gwastraff dŵr yn gyfrifol am 11% o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da. ~ Mae 5% o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da oherwydd mwngloddiau segur. Dyma'r achos yn Afon Teifi, Afon Aman, Afon Tywi, Afon Pelenna, Afon Afan, Ffrwd Wylt ac Afon Clun.
Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Mae de-orllewin Cymru'n cynnwys amrywiaeth enfawr o gynffinoedd a rhywogaethau, o'r parthau rhynglanw cyfoethog (gan gynnwys unig Barth Cadwraeth Morol Cymru) o amgylch yr arfordir i'r ucheldiroedd amrywiol (gan gynnwys cynffinoedd glaswelltir a rhostir â blaenoriaeth). Mae ein cynffinoedd yn cefnogi rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol megis aderyn drycin Manaw ac mae Ynys Sgomer ac Ynys Sgogwm yn cefnogi'r boblogaeth fridio fwyaf yn y byd. Mae 8.7% o ardal de-orllewin Cymru wedi'i dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae 72% o'n hunedau monitro yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ne-orllewin Cymru â statws anffafriol (gyda dim ond 7% o'r rhain wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n adfer) Canfu Adroddiad Sefyllfa Byd Natur (2016) fod 33% o'r rhywogaethau â blaenoriaeth a aseswyd yng Nghymru wedi'u dosbarthu fel rhai sydd wedi dirywio dros y degawd diwethaf. Er hynny, mae'r raddfa y mae rhywogaethau yn diflannu yn is yng ngorllewin Cymru o'i chymharu â'r dwyrain (un rhywogaeth bob pump i saith mlynedd ac un i bedair mlynedd yn y drefn honno). Mae 20% o'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da (dilêwyd y rhai lle mae'r rheswm yn anhysbys) yn ne-orllewin Cymru oherwydd addasiadau ffisegol – rhwydro mudiad rhywogaethau. Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Cynlluniau gweithredu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (y system Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth)
Gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid	<ul style="list-style-type: none"> According to Welsh Government figures Carmarthenshire, Swansea and NPT are within the top six local authorities in terms of total carbon emissions in Wales (Pembrokeshire ranks 9th). In terms of per-person total emissions (therefore accounting for population) NPT is the largest emitter of CO₂ in Wales at 8.6 tonnes per person. Yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru, mae Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot o fewn y cwe awdurdod lleol uchaf o ran cyfanswm allyriadau carbon yng Nghymru (mae Sir Benfro yn y 9fed safle). O safbwynt cyfanswm allyriadau fesul unigolyn (gan gymryd poblogaeth i ystyriaeth felly), Castell-nedd Port Talbot yw'r allyrrydd CO₂ mwyaf yng Nghymru, gan allyrru 8.6 tunnell am bob unigolyn. <ul style="list-style-type: none"> -> O safbwynt dadansoddiad sectoraidd o dde-orllewin Cymru, y tri sector uchaf yw diwydiant a thrydan masnachol (1.52MtCO_{2e}), cludiant ar y ffordd (1.05MtCO_{2e}) a nwy domestig (0.55MtCO_{2e}). Bydd gan newidiadau yn amrediad gofodol rhywogaethau ac mewn ffenoleg oblygiadau o ran cyfansoddiad ecolegol cymunedau a chynefinoedd, a bydd rhai ar eu hennill o'u herwydd a rhai ar eu colled. Mewn rhai ardaloedd, bydd rhywogaethau lleol yn diflannu. Mae rhywogaethau sydd ar ymyl ddeheuol eu hamrediad mewn perygl sylweddol o ddiflannu o rannau presennol eu hamrediad (Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd, 2017). Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd arwynebedd y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Graddau 1 i 3a) yng Nghymru a Lloegr yn lleihau o'r ganran bresennol o 37% i 7% yn y 2080au (senario allyriadau uchel) oherwydd cynnydd mewn sychder. Dros yr un cyfnod o amser, rhagwelir y bydd arwynebedd tir Gradd 4 yn cynyddu o 2% i bron i 66% (Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd, 2017).